

Ymchwil i Gymru

Amgueddfa Cymru



national
museum
wales
amgueddfa
cymru

ysbrydoli pobl
newid bywydau
inspiring people
changing lives



Ymchwil i Gymru

Mae gwaith ymchwil pwrpasol, sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ac sy'n ymdrin â'r heriau a wynebir gan Gymru gyfoes wrth wraidd popeth a wnawn.

Mae Ymchwil ac Arloesedd y Deyrnas Unedig yn ein cydnabod yn Sefydliad Ymchwil Annibynnol, un o ddau sefydliad o'r fath yn unig yng Nghymru. Gan ein bod yn Sefydliad Ymchwil Annibynnol, gallwn wneud cais uniongyrchol i Ymchwil ac Arloesedd y Deyrnas Unedig am gyllid i arwain projectau ymchwil.

Mae natur ein gwaith fel amgueddfa yn golygu bod ein hallbynnau ymchwil yn fwy amrywiol nag allbynnau llawer o sefydliadau ymchwil eraill. Yn ogystal â chyhoeddiadau academaidd, gall yr wybodaeth newydd sy'n cael ei chreu gennym gael ei hymgorffori hefyd mewn orielau, arddangosfeydd a rhaglenni cyhoeddus.

Mae ein hamgueddfeydd yn denu oddeutu 1.9 miliwn o ymwelwyr y flwyddyn. Mae'r sector amgueddfeydd yn ein hadnabod fel arweinwyr rhyngwladol o ran dysgu ac ymgysylltu drwy gyfranogiad diwylliannol. Mae ein hallbynnau ymchwil yn cael effaith enfawr ar y gymdeithas.

Mae gennym amrediad eang ac unigryw o gasgliadau celf a dylunio, ffotograffiaeth, pensaerniaeth werinol, hanes cymdeithasol a diwylliannol, archaeoleg a'r gwyddorau naturiol, gan gynnwys botaneg, sŵoleg, palaeontoleg a mwynoleg. Ymhlith ein casgliadau ceir archifau hanes llafar, adeiladau cyfan, teipsbesimenau, gwrthrychau a wnaed o ddeunyddiau amrywiol, a gwaith ar bapur ac mewn cyfryngau gweledol eraill.

Cerrig Gleision Côr y Cewri

Mae ein gwaith ymchwil yn parhau i fireinio ein dealltwriaeth o darddiad cerrig gleision Côr y Cewri. Hyd yn hyn, mae ein dadansoddiad geocemegol wedi dod o hyd i ddau darddle arall i'r cerrig gleision ym Mynyddoedd y Preseli yng ngorllewin Cymru. Mae cloddfeydd archaeolegol yno wedi datgelu tystiolaeth o chwarela cerrig yn y cyfnod Neolithig dros 5,000 o flynyddoedd yn ôl. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch pam roedd pobl yn cloddio am gerrig yn Sir Benfro, a sut a pham yr oeddent yn cael eu cludo i Wiltshire. Mae'r gwaith ymchwil yn parhau i ddenu sylw'r cyfryngau ar draws y byd.

Mae gennym saith amgueddfa genedlaethol ledled Cymru, a Chanolfan Gasgliadau Genedlaethol, felly ni yw amgueddfa genedlaethol fwyaf gwasgaredig yr ynysoedd hyn. Dyma'r saith amgueddfa genedlaethol: Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, ger Caerdydd; Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis, Eryri; Amgueddfa Wlân Cymru yn Nre-fach Felindre, Sir Gaerfyrddin; Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe; Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru ym Mlaenafon; Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru yng Nghaerllion; ac Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, cartref casgliadau cenedlaethol y celfyddydau a'r gwyddorau naturiol.

Ers i ni gael ein sefydlu ym 1907, rydym wedi cael ein hadnabod yn arweinwyr ym maes gwaith ymchwil yn y Deyrnas Unedig. Mae ein darganfyddiadau wedi diffinio ac ailddiffinio meysydd pwysig mewn nifer o ddisgyblaethau. Yn fwy diweddar, rydym wedi datblygu meysydd newydd o arbenigedd, gan gynnwys diwylliant a thlodi, iechyd a llesiant a'r newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth.



Amgueddfeydd a Democratiaeth Ddiwylliannol

Mae Cymru yn un o bedair cenedl y Deyrnas Unedig, a thrwy hynny rydym wedi ymrwmo i Ddatganiad Cyffredinol ar Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig (1948).

Mae hyn yn diffinio hawl pob unigolyn i 'gyfranogi'n rhydd ym mywyd diwylliannol y gymuned, i fwynhau'r celfyddydau ac i rannu mewn cynnydd gwyddonol a'i fanteision'. Yr hawliau yma yw'r sylfaen ar gyfer datblygiad ein gwaith ymchwil.

Fel y dywedodd Raymond Williams, mae diwylliant yn beth cyffredin, ac mae ym mhobman. Gan adeiladu ar draddodiadau cymunedol Cymru a'i hanes o athroniaeth radical, mae gennym bellach rwydwaith cynyddol o bartneriaethau rhwngwladol ac enw da ar draws y byd am fod yn arweinwyr syniadau ym maes newid cymdeithasol drwy gyfranogiad diwylliannol. Rydym yn ymrwymedig i ddatblygu hawliau diwylliannol pob plentyn ac oedolyn, ac i ehangu democratiaeth ddiwylliannol yng Nghymru fel cymdeithas a chenedl.

Penderfyniad Pwy?

Mae'r celfyddydau'n eiddo i bawb ond, yn draddodiadol, dim ond nifer fach o bobl sydd wedi'u grymuso i wneud penderfyniadau ynghylch yr hyn sy'n cael ei gasglu a'i arddangos, a sut y caiff ei gynrychioli. Yn 2018, gwahoddwyd defnyddwyr gwasanaethau elusen The Wallich – lawer ohonynt wedi profi digartrefedd – i gyd-guradu eu harddangosfa eu hunain o gelfyddydau modern a chyfoes o gasgliadau Ymddiriedolaeth Derek Williams. Dyma un o nifer o brojectau oriel sydd wedi'u cyd-gynhyrchu'n ddiweddar yn ein hamgueddfeydd.



Arloesi ym Maes Amgueddfeydd

Creadigrwydd ac arloesedd yw hanfod gwaith ymchwil mewn amgueddfeydd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r arferion ymchwil newydd a chyfranogol a ddatblygwyd gan ein staff addysg a churadurol wedi'u cymhwyso i'r gwaith o ddatblygu'r orielau, y rhaglenni a'r partneriaethau sy'n ganolog i brofiad yr ymwelydd.

Cafodd hyn ei gydnabod yn 2019, pan enillodd Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru Wobr Amgueddfa'r Flwyddyn y Gronfa Gelf, sef y wobwr amgueddfeydd uchaf ei bri yn y byd. Meddai cadeirydd y panel beirniadu, Stephen Deuchar: "Mae Sain Ffagan yn byw ac yn bod diwylliant a hunaniaeth Cymru. Mae'n biler o ddemocratiaeth amgueddfaol modern... cafodd y lle hudolus hwn ei greu gan bobl Cymru ar gyfer pawb o bob man".

Dywedodd Bridget McConnell, un o feirniaid y Gronfa Gelf a Chyfarwyddwr Glasgow Life: "Mae'n galonogol fod prif gefnogwr yr Amgueddfa, Llywodraeth ddatganoledig Cymru, wedi rhoi safle canolog i ddiwylliant er budd ehangach holl drigolion y wlad. Mae'r amgueddfa hon wir yn gosod esiampl a diolch i wobwr Amgueddfa'r Flwyddyn y Gronfa Gelf, caiff y byd nawr weld ei gwaith arloesol."



Llys Llywelyn, Llys un o Dywysogion Gwynedd

Mae Llys Llywelyn yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru yn ail-gread o lys brenhinol tywysogion Gwynedd y 13eg ganrif. Mae wedi'i ail-greu ar sail cloddfa archaeolegol yn Ynys Môn gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd, enghreifftiau o adeiladau o'r cyfnod sy'n dal i fodoli a chyngor arbenigwyr ar hanes,

pensaerniaeth a llenyddiaeth Cymru. Y tu mewn, ceir paneli tecstilau yn cynnwys golygfeydd a ysbrydolwyd gan straeon y Mabinogi a gafodd eu dylunio gan blant ysgol o Ynys Môn. Erbyn hyn gall plant ysgol o bob cwr o Gymru hefyd ddod i aros dros nos yn Llys Llywelyn.

Gwaith Ymchwil Amgueddfa Cymru

Diben gwaith ymchwil Amgueddfa Cymru yw gwireddu ein gweledigaeth – Ysbrydoli Pobl, Newid Bywydau.

Caiff ymrwymiadau ein gweledigaeth i bobl Cymru eu crynhoi i bedwar thema, Ffynnu, Profiadau, Dysgu a Chyfranogi. Yn sail i'r weledigaeth hon, ein pwrpas yw 'defnyddio ein hamgueddfeydd a'n casgliadau i ysbrydoli pobl i feithrin eu hunaniaeth a'u lles; i ddarganfod, mwynhau a dysgu'n ddwyieithog a deall lle Cymru yn y byd'.

Mae gan amgueddfeydd rôl unigryw i'w chwarae fel canolfannau cyhoeddus ar gyfer addysg ffurfiol ac anffurfiol, ac ymgysylltu cymunedol; yn wir, labordai ymchwil cyhoeddus o gyfranogiad diwyllianol yw ein saith amgueddfa. Mae ein gwaith, a sut y gall gyfrannu'n effeithiol at newidiadau mewn cymdeithas, hefyd yn ganolbwynt pwysig i'n gwaith ymchwil.

Trwy roi'r gwyddorau dynol wrth wraidd eu gwaith ymchwil a gweithio ar draws disgyblaethau i daflu goleuni o'r newydd ar safbwynt neu bwnc, mae amgueddfeydd arloesol sy'n gweithio at bwrpas yn cyflawni gwaith mwy treiddgar ac effeithiol. Mae ein gwaith ymchwil yn amrywio o astudio profiadau cymunedau ffoaduriaid yng Nghymru i fethodolegau ar gyfer cynhyrchu arddangosfeydd a rhaglenni cyhoeddus ar y cyd.

Mae ymgysylltu â'r cyhoedd, cyfranogiad cymunedol a chyd-gynhyrchu yn elfennau annatod ym mhob cam o'n gwaith, gan gynnwys caffael, defnyddio a gofalu am gasgliadau; datblygu arddangosfeydd ac orielau; llunio gwasanaethau addysg anffurfiol i deuluoedd a chymunedau; digwyddiadau cyhoeddus a darpariaeth addysg ffurfiol. Mae ein gwaith hymchwil yn eu llywio bob un.

Tŷ'r Ffoaduriaid

Yn 2012, gyda nawdd gan Gyngor Celfyddydau Cymru a chefnogaeth Oasis Caerdydd a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent, penderfynodd cymunedau ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn ne Cymru ail-greu y tu mewn i dŷ yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru sy'n nodweddiadol o'r tai a ddarperir ar eu cyfer yng Nghymru. Gwnaethant hefyd 'fyw' yn y lleoedd hyn, gan amlygu problemau ynghylch gofod personol a phreifatrwydd, a chychwyn sgysiau heriol ag ymwelwyr a staff ynghylch ystrydebau a chamsyniadau.



Gwaith Ymchwil sy'n Ymateb i Heriau

Mae cyfiawnder cymdeithasol wrth wraidd ein rhaglenni.

Mae Cymru'n wynebu heriau mewn llawer o feysydd polisi cyhoeddus, gan gynnwys tlodi, datblygu economaidd, iechyd cyhoeddus, cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes, y newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. Ni all corff cyhoeddus fel ni sy'n cael ei gyllido'n genedlaethol anwybyddu'r heriau hyn. Heriau'r genedl yw ein heriau ymchwil ni.

Mae ein gwaith ymchwil felly yn canolbwyntio ar Gymru ac yn ymateb i heriau. Mae'n canolbwyntio ar gyflawni uchelgeisiau strategol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n pennu dyheadau'r genedl am newidiadau cadarnhaol dros y degawdau nesaf.

Algâu Diatom

Ar un adeg, afon Gwy oedd yr afon eogiaid fwyaf cynhyrchiol yng Nghymru a Lloegr. Dros y degawdau diwethaf, mae asideiddio is-nentydd mewn ardaloedd lle y mae coed conwydd wedi'u plannu wedi arwain at ddirywiad dramatig yn nifer y pysgod. Defnyddiodd ein hymchwylwyr bresenoldeb algâu diatom i nodi'r nentydd mwyaf asidaidd, ac i fonitro'r adfer ar ôl ychwanegu calch i'r prif ddyfroedd. Yn ystod y ddegawd ddiwethaf, mae nifer yr eogiaid ifanc yn afon Gwy uchaf wedi cynyddu 416%.







Yr Adran Ymchwil

Sefydlwyd ein Hadran Ymchwil yn 2016. Ers hyn, rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau llwyddiannus i gynghorau ymchwil a llywodraethau am broiectau ymchwil wedi'u cyllido a dyfarniadau PhD allanol cydweithredol.

Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi llofnodi Memoranda Cyd-ddealltwriaeth, sy'n cynnwys elfen o waith ymchwil, gyda llawer o brifysgolion Cymru, ac mae mwy o'n staff wedi ennill graddau Doethuriaeth eu hunain drwy'r partneriaethau hyn. Rydym hefyd wedi cynnal rhaglenni hyfforddi mewn gwaith ymchwil ar gyfer ein staff i'w helpu i wneud ceisiadau am gronfeydd ymchwil ac adeiladu enw da ym maes ymchwil.

Dwylo ar Dreftadaeth

Ein project Dwylo ar Dreftadaeth (rhan o raglen Tynnu'r Lluch, a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol), yw canolbwynt ein gwaith ymchwil â phartneriaid ar ddulliau creadigol a chydweithredol o weithio gyda phobl ifanc. Mae amrediad o dechnegau ansoddol yn cael eu defnyddio i edrych ar brofiadau pobl ifanc sy'n gweithio gyda ni, a'u safbwyntiau ar sut i wella'r model.

Ein Nodau Ymchwil

Bydd ein gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar brojectau sy'n ein galluogi i gyflawni ein gweledigaeth a'n Cynllun Strategol Deng Mlynedd, er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a hybu datblygiad rhanbarthol a chenedlaethol ledled Cymru.

Byddwn yn cynyddu cyfraniad ymchwil at ddatblygiad ein rhaglenni cyhoeddus, er mwyn cyfoethogi ansawdd y gwasanaethau rydym ni'n eu cynnig ac er mwyn sicrhau bod ein gwaith ymchwil yn diwallu anghenion y cyhoedd a'r genedl.

Byddwn yn datblygu rhaglenni ymchwil sy'n cefnogi cymunedau, sefydliadau trydydd sector ac elusennau lefel stryd, er mwyn creu newidiadau cymdeithasol cadarnhaol yng Nghymru ac ar draws y byd. Byddwn yn symud o fodel ymchwil echdynnol tuag at fodel sy'n galluogi, lle byddwn yn cefnogi datblygiad ymchwilwyr gweithredol ac yn atebol i'r cymunedau yr ydym yn gweithio â nhw.

Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn hyfforddiant a sgiliau staff sy'n dangos addewid ym maes ymchwil, gan eu cefnogi ar eu taith o ddatblygu eu gyrfa gynnar i arwain projectau ymchwil mawr a gyllidir. Byddwn yn sefydlu contract fframwaith rhwng Amgueddfa Cymru a'r staff sy'n rhedeg projectau ymchwil cymeradwy, ac yn gosod prosesau cyson a thrwyadl ar waith ar gyfer cymeradwyo, monitro a chyflawni projectau ymchwil gan ein staff ein hun a staff sefydliadau academiaidd eraill.

Byddwn yn chwilio am fuddsoddiadau i wella ein seilwaith ymchwil, gan gynnwys lleoedd, cyfleusterau ac adnoddau, er mwyn cefnogi gwaith ymchwil gan y cyhoedd ac arbenigwyr allanol yn ogystal â'n staff ein hun.

Cyfuno: Creu Cyfleoedd drwy Ddiwylliant

Mae Cyfuno, menter Llywodraeth Cymru, yn defnyddio diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau i weddnewid cyfleoedd bywyd unigolion drwy gyflogadwyedd, grymuso, addysg y blynyddoedd cynnar a theuluoedd, ac iechyd a lles. Mae ar waith mewn wyth ardal yng Nghymru sy'n wynebu anfantais

economaidd. Rydym ni, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, yn arwain gwaith ymchwil a gwerthuso'r rhaglen. Yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe, tyfwyd bwyd yng ngardd GRAFT yr amgueddfa, sy'n cael ei ddisbarth i elusennau lleol sy'n cefnogi pobl ddigartref.





Bylbiau'r Gwanwyn i Ysgolion

Gyda chymorth Amgueddfa Cymru ac Ymddiriedolaeth Edina, mae gwyddonwyr ysgol yng Nghymru wedi bod yn cadw cofnodion o'r tywydd ers 2005. Maent yn nodi pan fydd blodau'n agor yn rhan o astudiaeth hirdymor

sy'n edrych ar effeithiau newidiadau yn y tymheredd ar fylbiau'r gwanwyn. Mae'r project bellach wedi'i ehangu i ysgolion yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Lloegr.



Dyfodol Cydweithredol

Yr unig ffordd y byddwn ni yma yng Nghymru yn llwyddo i gyflawni ein nodau ymchwil cenedlaethol, a denu ein cyfran gymesur o gyllid ymchwil yn y DU, Ewrop ac ar draws y byd, yw drwy gydweithredu fel sefydliadau ymchwil blaenllaw ar lefel strategol.

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â phrifysgolion, y sector iechyd, sefydliadau blaenllaw yn y trydydd sector, cyrff y celfyddydau a chwaraeon a sefydliadau diwylliannol cenedlaethol eraill i ddenu nawdd ymchwil mawr i Gymru.